Y Cyfarwydd a'r Anghyfarwydd.

Maddeuwch imi aelodau Tabernacl a Bethlehem am beidio a pharatoi oedfa ddigidol, rithiol, i chi yr wythnos hon, ond ma'r dechnoleg sy' mor gyfarwydd i rai yn anghyfarwydd iawn i eraill, ac wrth "eraill" wrth gwrs dwi'n golygu fi fy hun! Ond dyna ni, fel'na mae 'di bod erio'd am wn i. Ond wedyn es i feddwl, tybed, tybed, bod hyn yn rhoi cyfle i ni yn y dyddiau "anghyfarwydd" hyn, i ni droi at eiriau "cyfarwydd", a'u darllen o'r newydd, achos weithiau ma' geiriau cyfarwydd yn gallu bod yn *or*gyfarwydd. Felly, dwi am roi tasg, pleserus gobeithio, i chi, na, i ni, i ddarllen un o ddarnau mawr y Testament Newydd dros y Sul, sef Y Bregeth ar y Mynydd. OND, dwi am i ni ei wneud mewn ffordd anghyfarwydd o gyfarwydd, yn dilyn patrwm oedfa fore, pnawn a nos.
BORE SUL: Darllenwch fersiwn cyfarwydd barddonol Mathew, **(Mathew 5: 3-10)**a rhowch sylw i un cymal o'ch dewis, ystyriwch, a thrafodwch am funud neu ddau. (Neu fwy!)
Yna, YN Y PRYNHAWN, darllenwch fersiwn rhyddieithol anghyfarwydd Luc. **(Luc 6: 20-25)**a rhowch sylw i gymal gwahanol sy'n dal eich sylw.
Yna, gyda'r HWYR darllenwch fersiwn Mathew a Luc, a pharhewch gyda Luc hyd at adnod 36.
Myfyriwch y cyfarwydd.
Mwynhewch yr anghyfarwydd.